Cwmni Cydweithredol Cymunedol Tafarn y Fic Cyf.

Swydd ddisgrifiad : Rheolwr Bar

Cyflog: £19,000 y flwyddyn

Pwrpas y swydd

1. Rheoli bar Tafarn y Fic.

2. Cydweithio gyda Phwyllgor Adloniant Cwmni Tafarn y Fic i gynllunio ar gyfer nosweithiau adloniant a gweithgareddau achlysurol eraill.

Prif gyfrifoldebau

- Sicrhau rhedeg busnes effeithlon, effeithiol, cyfreithiol a diogel o ddydd i ddydd;
- Cynnal bar proffidiol;
- Rheoli a goruchwylio staff eraill y dafarn er sicrhau y darperir safonau rhagorol o wasanaeth i'r cwsmer gan roi anghenion y cwsmer yn gyntaf ar bob adeg e.e. ni ddylid gadael ystafell y bar â chwsmeriaid yn disgwyl
- Cydweithio â Phwyllgor Adloniant y Cwmni pan fydd adloniant wedi ei drefnu a darparu ar gyfer nosweithiau yn y dafarn (sicrhau staff digonol ayb);

Dyletswyddau

- Sefydlu, meithrin a chynnal perthynas dda gyda chwsmeriaid presennol y dafarn a datblygu rhai o'r newydd; Cynorthwyo'r Pwyllgor Rheoli i recriwtio, hyfforddi a goruchwylio staff cefnogol i helpu redeg y bariau – gan sicrhau staff *digonol* yn unig, gan roi pwyslais ar hyfforddiant digonol i gyflenwi gwasanaeth da e.e sicrhau bod pob aelod o staff bar yn deall trefn agor a chau'r dafarn y sustemau ariannol; defnyddio'r peiriannau a.y.y.b.
- Cadw golwg ar stoc, ailstocio a gosod archebion gyda chyflenwyr gan weithio o fewn canllawiau'r Pwyllgor Rheoli ar gyfer gwariant a gwastraff;
- Ymgymryd â dyletswyddau dyddiol ac wythnosol rhedeg y bar – sicrhau cyflenwadau digonol, glanhau pibelli ayb, gofalu am y seler; trefnu i archebu a derbyn nwyddau a.y.y.b.
- Sefydlu, meithrin a chynnal perthynas weithio da gyda chyflenwyr gan gynnwys cyflenwyr bwyd a diod, perfformwyr a darparwyr hyfforddiant;
- Gofalu am faterion ariannol y bar i gynnwys gwneud cofnod o sefyllfa ariannol y til ar ddiwedd pob diwrnod gwaith.

Bydd y dyletswyddau hyn i'w ymgymryd mewn cydweithrediad agos â Chadeirydd Pwyllgor Rheoli'r Cwmni a/neu gyfarwyddwr arall a benodir gan y Pwyllgor Rheoli i ymgymryd â'r dasg.

Rheolaeth

Bydd prif gyfrifoldeb y Trefnydd Bar i Bwyllgor Rheoli Cwmni Cydweithredol Cymunedol Tafarn Y Fic Cyf.

Oriau gwaith

Mae natur rhedeg y dafarn yn golygu oriau hyblyg, gan gynnwys gweithio gyda'r nos, penwythnosau a dros wyliau statudol pan fo'r dafarn ar agor. Fodd bynnag yr wythnos waith fydd 42 awr yr wythnos ar gyfartaledd ar gyfer y gwaith bar a 4 awr yr wythnos ar gyfer y dyletswyddau ychwanegol a nodir isod.

Rhaid sicrhau bod y dafarn yn cael ei chau ar yr amseroedd agor/cau y cytunwyd iddynt gan y Pwyllgor Rheoli.

DYLETSWYDDAU YCHWANEGOL

Ar gyfer y dyletswyddau a nodir isod, caniateir 4 awr hyblyg bob wythnos :

- Glanhau pob rhan o'r Dafarn gan gynnwys y bar, yr ystafell fawr, y toiledau, y cynteddau a chadw'r gegin a'r cwrtil allanol yn daclus
- Cadw golwg ar gyflwr yr adeilad, y maes parcio a'r offer yn cynnwys y lifft, ciosg Rhyngrwyd, drysau tân, offer tân a.y.y.b. ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Rheoli ar unrhyw waith sydd angen ei wneud neu unrhyw broblemau iechyd a diogelwch posib
- Gwybyddu staff am ofynion iechyd a diogelwch a materion tân e.e. yr angen i gadw'r peiriant rhew yn lân; yr angen am offer golchi a sychu dwylo; lleoliad y tân ddiffoddwyr; lleoliad y llyfr damweiniau a.y.y.b.

Gwyliau

Gwyliau blynyddol fydd 184 awr y flwyddyn, sef 4 wythnos waith.

Yn weithredol o'r 1af Ebrill 2007, rhoddir amser i ffwrdd yn sgil gwyliau banc ar y raddfa o x1.5 amser. Telir hyn am waith ar Suliau penwythnosau gŵyl banc yn hytrach nag ar y dydd Llun oherwydd patrwm masnachol y dafarn. Telir y raddfa o x1.5 am weithio ar **Noson Calan** yn hytrach na dydd Calan hefyd. Os yw gwyl banc yn disgyn yng nghanol yr wythnos (dros y Nadolig e.e.), telir x1.5 am y dyddiadau yma hefyd.

Teithio

Os y defnyddir car ar gais y Pwyllgor Rheoli fe delir gostau teithio ar raddfa 35c y filltir a 5c ychwanegol ar gyfer pob cyd-deithiwr.

Salwch

Fe delir tâl llawn am y tri diwrnod cyntaf o unrhyw gyfnod o salwch. Wedi'r 3 diwrnod cyntaf, fe delir Tâl Gwaeledd Statudol.

Hyd y cytundeb

Cedwir yr hawl gan y Pwyllgor Rheoli i adnewyddu/diddymu y cytundeb ar ddiwedd cyfnod o 12 mis. Gellir terfynu'r cytundeb drwy roi mis o rybudd.